OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2470

## Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009

### RHAN 3

Pwerau a chosbau

**Gorfodi**

**19.**—(1) Gorfodir y Rheoliadau hyn gan yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol, bod rhaid i ddyletswydd orfodi a osodir ar yr awdurdod lleol o dan y rheoliad hwn gael ei chyflawni gan Weinidogion Cymru ac nid gan yr awdurdod lleol.

**Pwerau arolygwyr**

**20.**—(1) Caiff arolygydd, wedi iddo ddangos, os gofynnir iddo wneud hynny, awdurdodiad a ddilyswyd yn briodol, fynd i mewn i unrhyw fangre (ac eithrio unrhyw fangre nad oes ceffyl ynddi ac a ddefnyddir yn unig fel annedd) ar unrhyw adeg resymol er mwyn gweinyddu a gorfodi'r Rheoliadau hyn, ac yn y rheoliad hwn mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw gerbyd neu gynhwysydd.

(2) Caiff arolygydd gyflawni'r holl wiriadau ac archwiliadau sy'n angenrheidiol er mwyn gorfodi'r Rheoliadau hyn, ac yn benodol—

(a) mynnu bod dogfen adnabod yn cael ei dangos, a marcio'r ddogfen fel y bo angen;

(b) mynnu bod unrhyw geffyl yn cael ei ddangos, a marcio'r ceffyl at ddibenion adnabod, fel y bo angen;

(c) cynnal unrhyw ymholiadau;

(ch) cael mynediad at unrhyw ddogfennau neu gofnodion (ym mha bynnag ffurf y'u cedwir) sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn, eu harchwilio a'u copïo a'u cludo ymaith i'w copïo;

(d) archwilio a gwirio gweithrediad unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â dogfennau neu gofnodion sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn; ac

(dd) pan gedwir cofnod gan ddefnyddio cyfrifiadur, mynnu bod y cofnod yn cael ei ddarparu mewn ffurf sy'n caniatáu ei gludo ymaith.

(3) Pan fo arolygydd wedi mynd i mewn i unrhyw fangre ac nad yw'n rhesymol ymarferol penderfynu a yw dogfennau yn y fangre honno yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn, caiff yr arolygydd ymafael yn y dogfennau hynny er mwyn penderfynu a ydynt yn berthnasol ai peidio.

(4) Caiff yr arolygydd fynd gydag—

(a) unrhyw bersonau eraill a ystyrir gan yr arolygydd yn angenrheidiol, a

(b) unrhyw gynrychiolydd y Comisiwn Ewropeaidd sy'n gweithredu at y diben o orfodi ymrwymiad Cymunedol.

(5) Mae'n dramgwydd difwyno, difodi neu dynnu ymaith unrhyw farc a osodir o dan y rheoliad hwn ac eithrio o dan awdurdod ysgrifenedig arolygydd.

(6) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 21, ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw person a benodwyd fel y cyfryw gan awdurdod lleol neu gan Weinidogion Cymru ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau hyn neu o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

### Rhwystro

**21.** Mae'n dramgwydd—

(a) rhwystro yn fwriadol arolygydd sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith;

(b) heb esgus rhesymol, peidio â rhoi i arolygydd, sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith, unrhyw gymorth neu wybodaeth a fynnir yn rhesymol gan yr arolygydd hwnnw o dan y Rheoliadau hyn;

(c) rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw wybodaeth gan wybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol; neu

(ch) peidio â dangos ceffyl, dogfen, cofnod, neu ddogfen adnabod pan ofynnir amdano neu amdani, i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith.

### Cosbau

**22.** Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored—

(a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu

(b) o'i gollfarnu ar dditiad, i ddirwy.

### Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol

**23.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac y profir bod y tramgwydd hwnnw—

(a) wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog y corff corfforaethol, neu

(b) y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog y corff corfforaethol.

(2) Mae'r swyddog, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr “swyddog” (“*officer*”) yw—

(a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson cyffelyb arall o'r corff corfforaethol, neu

(b) unrhyw berson sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn swyddogaeth o'r fath.

(4) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad â gweithredoedd a diffygion aelod ynglŷn â'i swyddogaethau rheoli, fel pe bai'r aelod yn swyddog y corff corfforaethol.

### Tramgwyddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig

**24.**—(1) Ceir dwyn achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, yr honnir ei fod wedi ei gyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig, yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas honno.

(2) At ddibenion achosion o'r fath—

(**1**) 1981 p. 22.

(a) mae'r rheolau llys ynglŷn â chyflwyno dogfennau i gael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas yn gorff corfforaethol;

(b) mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(**2**) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**3**) yn gymwys mewn perthynas â'r bartneriaeth neu'r gymdeithas fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforaethol.

(3) Rhaid talu unrhyw ddirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas, a gollfernir am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas honno.

(4) Mae paragraff (5) yn gymwys pan brofir bod tramgwydd a gyflawnwyd gan bartneriaeth o dan y Rheoliadau hyn—

(a) wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu

(b) y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner.

(5) Mae'r partner, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(6) Mae paragraff (7) yn gymwys pan brofir bod tramgwydd a gyflawnwyd gan gymdeithas anghorfforedig o dan y Rheoliadau hyn—

(a) wedi ei gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog y gymdeithas, neu

(b) y gellir ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran swyddog y gymdeithas.

(7) Mae'r swyddog, yn ogystal â'r gymdeithas, yn euog o'r tramgwydd ac yn agored i'w erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(8) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddog" ("*officer*") yw—

(a) un o swyddogion y gymdeithas neu aelod o'i chorff llywodraethu, neu

(b) person sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn swyddogaeth o'r fath.

(9) Yn y rheoliad hwn, mae "partner" ("*partner*") yn cynnwys person sy'n honni ei fod yn gweithredu fel partner.

### Dirymiadau

**25.** Dirymir Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005(**4**).

(**2**) 1925 p. 86. Diddymwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 33 gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55), adran 132 ac Atodlen 6; diwygiwyd is-adran (3) gan Ddeddf y Llysoedd 1971 (p. 23), adran 56(1) ac Atodlen 8, Rhan II, paragraff 19; diwygiwyd is-adran (4) gan Ddeddf y Llysoedd 2003 (p. 39), adran 109(1) a (3), Atodlen 8, paragraff 71 ac Atodlen 10; diddymwyd is-adran (5) gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952, adran 132, Atodlen 6.

(**3**) 1980 p. 43. Diwygiwyd is-baragraff 2(a) gan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (p. 25), adran 47, Atodlen 1, paragraff 13, ac fe'i diddymwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44), adrannau 41 a 332, Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 51, is-baragraffau (1), (13)(a), ac Atodlen 37, Rhan 4 (gydag effaith o ddyddiad sydd i'w benodi); diddymwyd paragraff 5 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53), adrannau 25(2) a 101(2) ac Atodlen 13; diwygiwyd paragraff 6 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 41, Atodlen 3, Rhan 2, paragraff 51, is-baragraffau (1) ac (13)(b) (gydag effaith o ddyddiad sydd i'w benodi).

(**4**) O.S. 2005/231 (Cy. 21).